Site Stakeholder Group

SAFLE TRAWSFYNYDD

COFNODION Y PEDWERYDD CYFARFOD AR DDEG O'R GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO DDYDD LLUN RHAGFYR 6 2010 AM 11.00

YN BRESENNOL

Y Cyngh J Isgoed Williams	Cadeirydd, Cyngor Cymuned Trawsfynydd

Safle Trawsfynydd

Dr Phil J Sprague	Cyfarwyddwr y Safle
Mr H Madog Jones	MxN
Mr Kevin Titley	MxN
Mr Raymond Parry	MxN
Mrs Delyth Heath	MxN
Mrs Sian E Jones	MxN
Mr Richard Foxhall	MxN
Dr Greg Gibson	MxN
Ms Lisa Cunnington	MxN
S Williams	MxN
R Ward	MxN

Safle Maentwrog
Mr Eifion T Lewis

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Ms Amanda French

Cyngor Gwynedd
Mr Llyr Jones
Mr Emyr Searell Jones

Cynghorau Tref a Chymuned

Y Cyngh D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Mr Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Mr John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Mr D Morris Jones	Cyngor Penrhyndeudraeth

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Gwyn Lewis	Pysgota Prysor
Mr Keith O'Brien	APCE
Mr Idwal W Williams	Traws-Newid
Mr Aled Sturkey	Awdurdod Parc Eryri
Mr Iolo ap Gwyn	Awdurdod Parc Eryri
Mr Dafydd Jarrett	NFU Cymru

Arsylwyr

Mr Alan Hall	Awdurdod Dŵr Cymru

Heb fod yn aelod

Mr Aled Jones	Cymen - Cyfieithu
Miss Gwawr Jones	Ysgrifennydd Cofnodion

1. Ymddiheuriadau

Michael J Willis	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Elfyn Llwyd	AS Meirion Dwyfor
Paul Kennedy	Asiantaeth Safonau Bwyd
Jonathan Jenkin	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Dafydd Elis Thomas	AC Meirion Dwyfor
Gwen Pettifor	WI/Sefydliad y Merched
Tom Ellis	Cynghorydd Cyngor Gwynedd
Andy McAteer	MxN
Dr John Idris Jones	MxN

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. O ganlyniad i'r tywydd garw, byddai'n bosib na fyddai rhai adroddiadau yn cael eu cyflwyno, ond mae'r holl adroddiadau ar gael yn y pecyn a ddosbarthwyd.

2. Derbyn cofnodion 7 Mehefin a 27 Medi 2010.
Cymeradwywyd a derbyniwyd y cofnodion.

3. Materion yn codi o'r cofnodion
Nodwyd bod Mr Tom G Ellis yn gynghorydd Cyngor Gwynedd a dylid nodi hynny yn y cofnodion.

4. Anerchiad y Cadeirydd
Mae Mr Glenn Vaughan wedi gadael yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear am swydd newydd. Estynnwyd croeso cynnes i Amanda French, cynrychiolydd newydd yr Awdurdod.
Bu'r Cadeirydd a Mr. Idwal Williams mewn cyfarfod ym Manceinion rhwng 21-23 Medi a oedd yn ymwneud ag ymgynghoriad ar gyfer strategaeth 2013. Ceid peth ansicrwydd ynghylch ariannu yn y dyfodol. Ond bydd safle Trawsfynydd yn derbyn £3 biliwn ar gyfer y 3-4 blynedd nesaf.
Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus ar 25 Medi a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd. Bydd yr amrywiol gynghorau yn cael crynhoad byr mewn cylchlythyr am ddigwyddiadau'r cyfarfod. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n hwylus yn Nhrawsfynydd a chydweithio llwyddiannus rhwng yr arolygwyr a'r rhanddeiliaid. Cyflwynir adroddiadau amrywiol gan yr unigolion priodol yn ystod y bore.
Gwahoddwyd Dr Phil Sprague i annerch. Mae ar fin symud i Dde Lloegr yn rhinwedd ei swydd newydd. Diolchwyd iddo am ei gyfnod llewyrchus a llwyddiannus yn Nhrawsfynydd ac am y parch a ddangosodd tuag at yr iaith Gymraeg. Dymunwyd pob lwc iddo ar gyfer y dyfodol a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniad.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle
Diolchodd Dr Phil Sprague am y geiriau caredig a dywedodd iddo dreulio cyfnod hapus tu hwnt mewn ardal mor hardd. Mae bellach wedi sefydlu cwrs wythnosol ar gyfer dysgu Cymraeg ar gyfer y gweithwyr ac unrhyw un arall sy'n dymuno mynychu.

5.1 Diogelwch
Dangosodd yr adroddiad diogelwch mai un damwain yn unig a fu yn y 12 mis diwethaf, wrth i weithiwr syrthio allan o lifft a thorri ei arddwrn. Mae'r rhaglen ailwampio yn ei lle er mwyn sicrhau na fydd damweiniau pellach o'r fath ar y safle. Gyda mwy o weithwyr ar y safle, mae angen hyfforddi mwy o bobl ac mae hynny'n her gyson. Mae'r diwylliant o ddiogelwch yn ardderchog a dymunir iddo barhau felly.

5.2 Newidiadau i'r cwmni
Mae Magnox North a Magnox South wedi cyfuno i greu Magnox Ltd. Mae'r gadwyn reoli yn parhau ac o dan yr un berchenogaeth, ond dan enw gwahanol.

5.3 Cyllid Carlam (*Accelerated Funding*)
Bydd £441 miliwn yn cael ei wario yn ystod y 5 mlynedd nesaf er mwyn cyflymu'r gwaith i gyrraedd cyflwr dros dro o Ofal a Chynnal. O ganlyniad, bydd y trethdalwr yn arbed £126 miliwn a bydd yr arian hwnnw'n cael ei sianelu i gyflymu'r broses ar gyfer y safle nesaf. Y nod craidd yw gwaredu gwastraff ymbelydrol. Bydd y broses o leihau uchder adeiladau'r Adweithydd yn cychwyn oddeutu'r flwyddyn 2020, a'r bwriad yw gorffen erbyn 2022/2025. Golyga hyn gynnydd mewn cyflogaeth dros y blynyddoedd nesaf a buddiannau amlwg i'r ardal leol.

5.4 Diweddariad prosiectau
Er y cafwyd peth trafferthion, mae'r timoedd yn gwneud gwaith rhagorol. Ar y cyfan, mae'r gwaith o fewn yr amrywiol adrannau yn datblygu'n dda iawn.

5.5 Datblygiadau economaidd-gymdeithasol
Mae llawer o ddatblygiadau wedi'u cyflawni oherwydd cyllid ychwanegol, ac mae hynny'n creu mwy o gyflogaeth. Mae 399 o'r gweithwyr yn lleol a gwneid y gorau o'r cyllid ar gyfer y lleoliad.
Mae llawer o adnoddau yn cael eu gwario yn lleol i gefnogi prosiectau gwyddoniaeth a pheirianneg. E.e. mae tîm o ddisgyblion coleg Meirion-Dwyfor wedi ffurfio tîm i gystadlu mewn cystadleuaeth rasio ceir F1. Defnyddiwyd £1500 o'r nawdd ar gyfer offer ac ymchwil. Gwarir tua £10,000 ar y gymdeithas leol sy'n golygu bod y safle yn ateb gofynion y targedau priodol ar gyfer cefnogi cymunedau bychain. Mae'r staff yn ogystal yn gweithio'n ddiwyd o fewn y gwahanol gymunedau.

Bydd Dave Wilson, cyfarwyddwr newydd y safle, yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn wythnos gyntaf mis Ionawr.

5.6. Cwestiynau
Dr H Madog Jones - mae grŵp treftadaeth Trawsfynydd yn y broses o gasglu arteffactau hanesyddol. Mae'r grŵp wedi'i sefydlu a chafwyd cyfarfod llwyddiannus yn trafod yr anghenion. Dosbarthwyd taflen a oedd yn sôn am ddiogelu treftadaeth ac mae cynlluniau pendant ar y gweill i sefydlu archif. Mae cyrff megis CADW, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn awyddus i sefydlu'r archif hwn oherwydd rôl Trawsfynydd o fewn y diwydiant.
Cefnogwyd hyn gan Keith O'Brian gan ychwanegu y dylid mynd i ymchwilio'n ehangach er mwyn sicrhau archif gwerth chweil.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mr Dave Wilson, cyfarwyddwr newydd y safle, am nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod. Cynigwyd y dylid gwahodd Mr Wilson i gyfarfod cyn gynted â phosib er mwyn iddo ymgyfarwyddo â swyddogaeth y rhanddeiliaid a dod i'w hadnabod. Cynigwyd y dylid cynnal cyfarfod ar Chwefror 14.

6. Adroddiad Ffisegydd Iechyd y Safle - Mr Robin Ward
Mae'r gollyngiadau yn parhau'n dda o fewn y terfynau diogelwch. Er i'r lefelau ar gyfer personél y safle fod ychydig yn uwch nag yn 2009, mae'n parhau ar lefel isel.
Mae'r gollyngiadau sy'n llifo i'r llyn yn parhau i ostwng. Mae lefelau'r pysgod yn isel iawn, ond mae'r pysgod a ganfuwyd yn rhai mawr. Mae'r effaith ymbelydrol ar y rheini sy'n bwyta nifer fawr o bysgod yn fach ac nid yw hyn wedi newid dros y blynyddoedd.
Gwelwyd cynnydd bach ar y dos ymbelydrol i staff a chontractwyr gan fod mwy o weithwyr ar y safle a mwy yn digwydd yno. Ond mae'r lefelau yn parhau yn isel.

6.1 Sychu'r bibell fawr
Yn dilyn ymchwil, gwelwyd bod dŵr yn diferu i Adweithydd 2 a fyddai'n rhydu'r darnau metel os na fyddai'n cael ei sychu. Bydd y broses sychu yn lleihau'r erydu gan olygu y bydd y gwaith datgymalu terfynol yn haws.

6.2 Cwestiynau
D. Morris Jones – Dywedoch fod y dos tua 0.01 sydd oddeutu 1% o'r dos eithaf. Beth yw'r ymbelydredd cefndirol?
Mae'r ymbelydredd cefndirol ychydig bach yn uwch.

David Jarret - Sonioch am y dŵr yn y bibell fawr. A ydych yn hyderus nad oes dŵr yn mynd mewn yno bellach ac mae rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol ydyw?
Un digwyddiad ar ei ben ei hun oedd hyn ar Chwefror 5, 2006. Mae'r cofnodion yn dangos newid bryd hynny. Rydym yn monitro'r lleithder yn gyson. Rydym yn hyderus nad oes dŵr yn mynd i mewn mwyach a bod y craidd graffit yn ei amddiffyn.

7. Adroddiad gan y Pwyllgor Cynllunio Brys Ymgynghorol
Nid oes unrhyw beth i'w adrodd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin.

8. Adroddiad gan yr Arolygaeth Gosodiadau Niwclear
Croesawyd Mr Chris Kemp i Drawsfynydd. Daeth i weithio fel Arolygwr ym mis Hydref a mynegodd ei awydd i ddatblygu ar y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes a chynnal iechyd a diogelwch digonol ar y safle. Ei fwriad yw arolygu a phrosesu'r gwaith cynnal a chadw a'r addasiadau yn ystod yr wythnos hon.

9. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd
Methodd Steve Howard â mynychu'r cyfarfod oherwydd yr eira.

10 Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Methodd Stuart Conney, hefyd, fynychu oherwydd yr eira.

11.Adroddiad gan yr ADN
Nododd Ms Amanda French fod yr adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi a bod cyllideb o £3 biliwn wedi'i sicrhau dros gyfnod o 4 blynedd. Cafwyd datblygiadau ar y safle, y staff ac o fewn prosiectau amrywiol. Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £86 miliwn ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

12. Adroddiad Hyder – Cyngor Gwynedd
Y nod yw adnabod a datblygu cynigion a fydd yn sicrhau buddiannau ariannol a chymdeithasol yn y tymor hir gan wneud y gorau o asedau ac adnoddau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Mae nifer o gyfleoedd a chryfderau ar gael yn Nhrawsfynydd sy'n cynnwys sgiliau'r gweithlu, y rheolau diogelwch ar y safle a harddwch naturiol Trawsfynydd. Ond ar y llaw arall, mae gwendidau megis cyflwr rhai o'r adeiladau a'r gwrthdaro posib rhwng gwahanol ddefnyddwyr y llyn. Nodwyd fod gan Barc Cenedlaethol Eryri bolisïau llym a byddai angen gweithio ar y cyd â'r polisïau amrywiol hyn. Argymhellid ceisio pwysleisio ar dair agwedd benodol sef ynni, hamdden a mentrau gwyrdd. Nodwyd bod angen sefydlu Grŵp Ymwelwyr i sicrhau bod pob cyfle i gymryd mantais o'r cyfleoedd hyn yn digwydd.

Cafwyd trafodaethau dros y pythefnos diwethaf rhwng MAGNOX a Llywodraeth y Cynulliad ynghylch sut y dylid datblygu a sefydlwyd 5 cynllun i'w datblygu, sef:

1. Y posibilrwydd o greu safle ddatgomisiynu er mwyn ceisio elwa o'r hyn a geid yma yn barod. Sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer datgomisiynu drwy fanteisio ar arbenigedd MAGNOX.
2. Datblygu canolfan dwristiaeth a sefydlu partneriaeth gyda Chymdeithas Bysgota Prysor yn ogystal â sefydlu canolfan reoli a datblygu ar gyfer y llyn.
3. Cynnig hyfforddiant pellach i'r gweithlu ac ail-ystyried arbenigedd y staff sydd yno eisoes.
4. Datblygu canolfan ddata yn Nhrawsfynydd gan gofio bod yr adnodd hwn ar gael eisoes yn Nhrawsfynydd.
5. Ystyried menter ac arloesi yn y dyfodol gan adnabod cyfleoedd amgylcheddol a chanolfannau ynni.

Y bwriad yw gweithio ar y prosiectau yma yn ystod y chwe mis nesaf. Yn y cyfarfod nesaf, caiff y cynlluniau hyn eu trafod mewn mwy o fanylder.

12.1 Cwestiynau

Y Cyng D Meredydd Williams - Pwy fydd yn gweithredu'r cynlluniau hyn? A fyddant yn cael eu datblygu? Beth sy'n digwydd i'r asedau sydd gennym?
Cadeirydd – Cafwyd pedwar adroddiad cynhwysfawr ers 1986, a gobeithiwn y gweithredir ar y cynlluniau hyn. Hwn yw'r unig oleuni ar gyfer y dyfodol. Os na weithredir ar y cynlluniau hyn, yna bydd pethau'n edrych yn wael iawn. Mae pawb yn awyddus i roi mewnbwn i'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau'u bodolaeth.
Y Cyng D Meredydd Williams - Gobeithio y bydd rhai atebion yn ystod y 6 mis nesaf.

Mr Dafydd Jarrett - Pan ydych yn sôn am 'safle', a ydych chi'n cyfeirio at y tir sydd eisoes dan berchnogaeth, neu at dir sydd y tu hwnt i'r ffiniau? Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol? Mae cyfle arbennig yma i ddatblygu a sicrhau ynni cynaliadwy.
Cyngh J Isgoed Williams – Mae hyn wedi'i drafod mewn manylder. Rhaid defnyddio'r adnoddau naturiol a datblygu heb effeithio ar y llyn na'r tir o amgylch. Gyda datblygiadau modern, dydw i ddim yn siŵr a fydd hyn yn debygol. Mae'r safle wedi bod yn cynhyrchu trydan yma ers 50 mlynedd. Byddai'n drueni mawr pe na fyddai'n parhau.
Mr Llyr Jones – Y peth olaf sydd ei angen arnom yw syniad arall sy'n cael ei roi o'r neilltu. Mae yma faterion difrifol i'w hystyried yma yn Nhrawsfynydd, a gobeithio y gallwn symud ymlaen gyda'r cynlluniau unigol hyn. Mae gennym gynlluniau clir yn ein meddyliau a byddwn ni, ynghyd â'n partneriaid, yn cynnig cyngor ar y ffordd ymlaen. Yn ddiau, bydd y pwyslais ar wireddu'r prosiectau.

Mr Dafydd Jarret – A yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys tir o eiddo MAGNOX?
Mr Llyr Jones - Ydy, mae wedi'i gynnwys, hyd at y ffin a brynwyd ym 1922.

13. Unrhyw fusnes arall

Nid oedd unrhyw drafodaeth bellach.

14. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ddydd Llun 6 Mehefin 2011.
Trefnwyd cyfarfod ychwanegol ar 14 Chwefror 2011 yn ogystal.